# Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan

## Adroddiad Blynyddol 2021–2022

*"Cefnogi presgripsiynu doeth i gael y canlyniadau gorau gan feddyginiaethau i gleifion yng Nghymru"*

GIG CYMRU
NHS WALES

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg*
*This document is available in English*

# Cynnwys


**Croeso'r Cadeirydd** 03
**Cerrig milltir a gyflawnwyd eleni** 05
**2021–2022 mewn rhifau** 05
**Proffil AWMSG** 06
**Prif straeon newyddion** 06
**Cyflawni argymhellion strategaeth pum mlynedd AWMSG 2018–2023** 07

**Gweithio mewn partneriaeth** 10
- Cynnwys cleifion a'r cyhoedd 11
- Cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol 13
- Cynnwys y diwydiant fferyllol 15

**Newyddion** 17
- AWMSG a chynaliadwyedd 17
- Dangosfwrdd newydd i helpu GIG Cymru i leihau'r ôl troed carbon o ddefnydd anadlyddion 18
- AWMSG ac AWTTC yn lansio gwefan gyfun newydd 19
- AWTTC yn cyd-gynnal Cyfarfod Blynyddol a gweithgareddau ymchwil HTAi 20
- Manteisio i'r eithaf ar fynediad ac effeithlonrwydd meddyginiaethau 22
- AWTTC yn tynnu sylw at y rôl sydd gan offer TG o ran sicrhau cymaint â phosibl o bresgripsiynu ar sail tystiolaeth 24
- Cyfarfodydd Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) 25
- Diwrnodau Arfer Gorau 27
- Diwrnodau Agored AWMSG 28
- Ymateb i'r pandemig COVID-19 29

**Optimeiddio meddyginiaethau** 31
- Fframwaith optimeiddio meddyginiaethau 31
- Canllawiau ac adnoddau presgripsiynu 31
- Adnoddau cydnabyddedig 34

**Monitro a dadansoddi presgripsiynu** 35
- Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs) 35

**Asesiad Technoleg Iechyd** 37
- Cyngor a gyhoeddwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 37
- Datblygiadau yn y broses arfarnu 39
- Cynllun Mynediad i Gleifion Cymru 41

**Aelodaeth** 42
- AWMSG 42
- AWPAG 43
- NMG 44

# Croeso'r Cadeirydd

## Adolygiad o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022



**Yr Athro Iolo Doull**
Cadeirydd AWMSG



Mae'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 wedi bod yn heriol ond yn ddiddorol. Rwyf wedi cael fy nghalonogi i weld sut rydym wedi gallu addasu ein gwaith i ymateb i heriau byd-eang y pandemig COVID-19 hirfaith a'r gwydnwch a'r arloesedd a ddangoswyd gan yr holl staff sy'n gweithio yn GIG Cymru ac yn y maes gofal cymdeithasol. Mae'r rôl ganolog y mae meddyginiaethau wedi'i chwarae drwy gydol y pandemig yn tynnu sylw at bwysigrwydd y gwaith y mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) a'i is-grwpiau, Grŵp Cynghori Presgripsiynu Cymru Gyfan (AWPAG) a'r Grŵp Meddyginiaethau Newydd (NMG), yn ei wneud wrth gynghori Llywodraeth Cymru a chefnogi cydweithwyr gyda phresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan y tîm amlddisgyblaethol sy'n gweithio yng Nghanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Academaidd Routledge yn Ysbyty'r Brifysgol Llandochau, wedi bod yn amhrisiadwy ac yn unigryw.

**"Dyma'r amser ar gyfer newid i sicrhau bod Cymru'n lle gwych i fyw i genedlaethau'r dyfodol"**

Mae hefyd wedi bod yn gyfnod o fyfyrio wrth i ni gefnogi ein gilydd drwy'r cyfnod hynod anodd hwn. Gyda chyfyngiadau'n llacio tua diwedd y cyfnod adrodd hwn, mae'r dyfodol yn edrych ychydig yn fwy disglair a rhaid i ni anelu at fownsio'n ôl a gwella ein hiechyd meddwl a'n lles – mwy o bresgripsiynu cymdeithasol gyda mwy o ymarfer corff a ffordd iachach o fyw. Mae

gan feddyginiaethau ran i'w chwarae, ond mae angen i fanteision cymryd meddyginiaeth orbwyso unrhyw risgiau cysylltiedig.

Fel bob amser, mae'r dirwedd feddyginiaethau'n newid yn gyflym, hyd yn oed yn fwy felly ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae newid amlwg i gydweithio ledled y DU i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar feddyginiaethau newydd ac arloesol waeth ble maent yn byw. Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwyliadwriaeth ffarmacolegol a chyfrifoldeb pawb i adrodd am adweithiau andwyol i feddyginiaethau a brechlynnau. Dyma'r amser ar gyfer newid i sicrhau bod Cymru'n lle gwych i fyw i genedlaethau'r dyfodol, gan anelu at Gymru iachach a mwy cynaliadwy, ac mae gan AWMSG rôl allweddol i'w chwarae o ran lleihau effaith amgylcheddol meddyginiaethau. Rydw i eisoes wedi gweld



rhai camau cadarnhaol iawn yn cael eu cymryd gyda chymeradwyaeth ddiweddar AWMSG i ganllawiau anadlol Cymru a lansio dangosfwrdd newydd AWTTC a fydd yn helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i fonitro'r defnydd o anadlyddion ac yn cefnogi presgripsiynwyr i gael sgyrsiau â'u cleifion am anadlyddion sy'n fwy ecogyfeillgar. Rhaid i ni ymdrechu i wella gwerth, lleihau gwastraff a dangos gwell canlyniadau iechyd i bobl Cymru: Rwy'n bwriadu sicrhau mai'r amcanion hyn fydd ffocws AWMSG yn y flwyddyn i ddod.

> **"Rhaid i ni ymdrechu i wella gwerth, lleihau gwastraff a chyflawni canlyniadau iechyd gwell"**

# Cerrig milltir a gyflawnwyd eleni

19 mlynedd

132 o gyfarfodydd AWMSG

424 o arfarniadau

# 2021–2022 mewn rhifau

9 cyfarfod wedi'u cynnal (tudalen 6)

14 cyhoeddiad optimeiddio meddyginiaethau (tudalen 31)

15 Dangosydd Presgripsiynu Cenedlaethol wedi'u monitro (tudalen 35)

21 arfarniad o feddyginiaethau (tudalen 37)

95% arfarniad cadarnahol (tudalen 37)

9 Cynllun Mynediad Cleifion Cymru wedi'u prosesu (tudalen 41)

# Proffil AWMSG

## Ein gweledigaeth ar gyfer Cymru – "Sicrhau'r canlyniadau gorau o feddyginiaethau i bobl Cymru"

### Enw:
Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

### Sefydlwyd:
2002

### Rôl:
Cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau strategol yn y maes presgripsiynu fel y nodir yn strategaeth pum mlynedd AWMSG.

### Aelodau:
Doctoriaid, nyrsys, fferyllwyr, academyddion, economegwyr iechyd, cynrychiolydd o'r diwydiant fferyllol, aelodau lleyg a Chyfarwyddwr Cyllid (gweler Aelodau ar dudalen 42 am aelodau unigol)

### Cyfarfodydd:
Cynhaliwyd 9 cyfarfod rhithwir yn 2021-2022

### Is-grwpiau:
Grŵp Meddyginiaethau Newydd (NMG) a Grŵp Cynghori Presgripsiynu Cymru Gyfan (AWPAG)

### Sefydliadol:
Pwyllgor Llywio AWMSG sy'n cynllunio'r gwaith a Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) sy'n rhoi cymorth ysgrifenyddol

### Rhagor o wybodaeth:
cttcg.gig.cymru (Cymraeg)
awttc.nhs.wales (Saesneg)
@AWTTCcymraeg (cyfrif Twitter Cymraeg)
@AWTTCcomms (cyfrif Twitter Saesneg)

# Prif straeon newyddion

## AWMSG a chynaliadwyedd
Sicrhau Cymru iachach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler tudalen 17).

## AWTTC yn tynnu sylw at y rôl sydd gan offer TG o ran sicrhau cymaint â phosibl o bresgripsiynu ar sail tystiolaeth
Mae cydweithrediad rhwng AWTTC a dau ddarparwr datrysiadau TG yn sicrhau bod negeseuon presgripsiynu allweddol AWMSG yn weladwy i bresgripsiynwyr yng Nghymru (gweler tudalen 24).

## Cyfarfodydd Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG)
Mae cyfarfodydd PAPIG yn ailddechrau ac yn estyn allan at bobl o bob rhan o Gymru a'r DU (gweler tudalen 25).

## Diwrnodau Agored AWMSG
Mae AWTTC yn cyflwyno pum Diwrnod Agored ar gyfer y diwydiant, gyda mwy i ddod yn 2022–2023 (gweler tudalen 28).

# Cyflawni argymhellion strategaeth pum mlynedd AWMSG 2018–2023

Mae AWMSG yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni argymhellion Strategaeth Meddyginiaethau Cymru 2018–2023 i wella'r defnydd diogel o feddyginiaethau, hyrwyddo arfer gorau a gwneud y defnydd gorau posibl o feddyginiaethau er budd pobl Cymru. Mae'r tabl isod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i weithredu'r argymhellion yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Gellir gweld Strategaeth pum mlynedd AWMSG 2018–2023 ar Wefan AWTTC.

| Gwaith a wnaed i weithredu'r argymhellion rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 | | |
|---|---|---|
| **Teitl** | **Math o gyhoeddiad** | **Argymhelliad strategaeth** |
| Fframwaith Optimeiddio Meddyginiaethau | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| NHS Wales GP Cluster Prescribing Leads Forum proposal – the Royal College of General Practitioners webinar January 2022 | Adroddiad a chyflwyniad | 2.1 Datblygu'r gweithlu |
| AWTTC: Supporting implementation of advanced therapy medicinal products in NHS Wales | Adroddiad | 4.6 Asesu technoleg iechyd – sicrhau bod y broses arfarnu yn cael ei hadolygu a'i bod yn diwallu anghenion datblygol GIG Cymru |
| AWMSG: 18 years' experience of a national medicines optimisation committee. Haines et al. British Journal of Clinical Pharmacology 2021; 87(10): 3961-3970. | Cyhoeddi ymchwil | 4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Arfarnu meddyginiaethau biodebyg | Adroddiad | 4.7 Cynllun Mynediad i Gleifion Cymru – sicrhau bod GIG Cymru yn adennill unrhyw ostyngiadau ariannol |
| Canllawiau clinigol cychwynnol ar gyfer oedolion sy'n ysmygu mewn gofal eilaidd | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>2.3 Systemau meddyginiaeth diogel<br>4.2 Rhestr meddyginiaethau sydd ar gael yn genedlaethol<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Deunydd i gefnogi presgripsiynu hypnotigau a chyffuriau lleihau gorbryder yn briodol ledled Cymru (diweddariad 2021) | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 1.3 Sicrhau darpariaeth gofal iechyd deg a chyfartal<br>2.1 Datblygu'r gweithlu<br>2.3 Systemau meddyginiaeth diogel<br>3.3 Adolygiad meddyginiaeth<br>3.4 Niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2021–2022: modiwl addysgol | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu'r gweithlu |

| Gwaith a wnaed i weithredu’r argymhellion rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 | | |
|---|---|---|
| **Teitl** | **Math o gyhoeddiad** | **Argymhelliad strategaeth** |
| Cyngor Cymru gyfan ar atalyddion cotransporter-2 sodiwm-glwcos mewn diabetes math 2 a chlefyd cardiofasgwlaidd | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu’r gweithlu<br>2.3 Systemau meddyginiaeth diogel<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Adnoddau addysgol Tramadol (adolygiad 2021) | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu’r gweithlu<br>2.3 Systemau meddyginiaeth diogel<br>3.4 Niwed sy’n gysylltiedig â meddyginiaeth<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau yng Nghymru |
| Pharmacogenetics in Wales | Adroddiad | 3.4 Niwed sy’n gysylltiedig â meddyginiaeth |
| AWMSG Communication and Engagement Strategy | Adroddiad | 1.1 Partneriaeth â’r cyhoedd<br>2.1 Datblygu’r gweithlu<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Canllaw rheoli a phresgripsiynu clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint Cymru gyfan (diweddariad 2021) | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu’r gweithlu<br>4.2 Rhestr meddyginiaethau sydd ar gael yn genedlaethol<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru<br>4.8 Defnyddio data i wella canlyniadau cleifion |
| Canllaw rheoli a phresgripsiynu asthma oedolion Cymru gyfan (diweddariad 2021) | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu’r gweithlu<br>4.2 Rhestr meddyginiaethau sydd ar gael yn genedlaethol<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru<br>4.8 Defnyddio data i wella canlyniadau cleifion |
| Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022–2023 | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru<br>4.5 Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol |
| Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022–2023 – Gwybodaeth ategol i bresgripsiynwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu’r gweithlu |
| Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2021-2022: Adroddiadau chwarterol | Adroddiad | 4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru<br>4.5 Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol |

| Gwaith a wnaed i weithredu'r argymhellion rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 | | |
|---|---|---|
| **Teitl** | **Math o gyhoeddiad** | **Argymhelliad strategaeth** |
| Cydnabyddiaeth AWMSG Methiant y galon yng Nghymru – Dull gweithredu paralel | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau (Cydnabyddiaeth) | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Cydnabyddiaeth AWMSG Rhwymynnau clwyfau gwrthficrobaidd: Datganiad, argymhellion a chanllawiau | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau (Cydnabyddiaeth) | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Cydnabyddiaeth AWMSG Canllawiau llid yr isgroen ar gyfer pobl â lymffoedema/oedema cronig yn GIG Cymru | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau (Cydnabyddiaeth) | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>2.3 Systemau meddyginiaeth diogel<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru<br>4.5 Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol |
| Archwiliad cenedlaethol y Rhaglen Presgripsiynu Effeithiolrwydd Clinigol – canolbwyntio ar bresgripsiynu gwrthfiotigau | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>2.3 Systemau meddyginiaeth diogel<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru<br>4.5 Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol |
| Rheoli haint *Clostridioides difficile* yng Nghymru | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>2.3 Systemau meddyginiaeth diogel<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Rheoli haint llwybr wrinol symptomatig ailadroddus mewn menywod sy'n oedolion | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>2.3 Systemau meddyginiaeth diogel<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Cyngor Cymru gyfan ar wrthgeulo geneuol mewn ffibriliad atrïaidd anfalfaidd (diweddariad 2022) | Adnodd optimeiddio meddyginiaethau | 2.1 Datblygu'r gweithlu<br>4.2 Rhestr meddyginiaethau sydd ar gael yn genedlaethol<br>4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |
| Adroddiadau dangosfwrdd datgarboneiddio ac ôl troed carbon anadlyddion GIG Cymru | Adnoddau ac adroddiadau optimeiddio meddyginiaethau | 4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru |


# Gweithio mewn partneriaeth

Mae AWMSG yn gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol yn y DU, i gyhoeddi argymhellion ar feddyginiaethau newydd, a chanllawiau ar wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau.

Yma rydym yn cyflwyno ein tri phartner allweddol:

- cleifion a'r cyhoedd;
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; a'r
- diwydiant fferyllol.

Rydym yn crynhoi sut mae pob un wedi bod yn rhan o waith AWMSG a'r hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf.




Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio eiconau i gynrychioli pob partner, i dynnu sylw at y straeon newyddion sy'n berthnasol i'r partner hwnnw.

**Cadwch lygad am yr eiconau hyn am straeon newyddion y gallai fod gennych ddiddordeb ynddynt**



**Cleifion a'r cyhoedd**



**Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol**



**Y diwydiant fferyllol**

# Cynnwys cleifion a'r cyhoedd

## Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG)

Sefydlwyd ein Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) i helpu AWMSG i gynnwys cleifion a sefydliadau cleifion yn ei waith. Rydym yn cynnal cyfarfodydd chwarterol ar gyfer aelodau PAPIG, sy'n rhoi mewnbwn hanfodol i'n gwaith. Mae croeso i bawb ymuno – dysgwch fwy am PAPIG ar wefan AWTTC.

## Cyflwyniadau cleifion a gofalwyr am feddyginiaethau newydd

Mae AWMSG yn gofyn am farn cleifion, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn ystod pob arfarniad meddyginiaeth. Mae aelodau pwyllgor AWMSG yn ystyried y safbwyntiau hyn wrth wneud eu hargymhellion. Ar gyfer un feddyginiaeth ar gyfer clefyd prin, a arfarnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd cyfarfod Grŵp Cynnwys Clinigwyr a Chleifion (CAPIG) i asesu manteision y feddyginiaeth ymhellach (gweler tudalen 40 am fanylion). Mae gan wefan AWTTC fwy o wybodaeth am sut i wneud cyflwyniad a'r meddyginiaethau sy'n cael eu harfarnu gan AWMSG ar hyn o bryd.

## Ymatebion i ymgynghoriadau cleifion a'r cyhoedd

Mae AWMSG yn annog cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r cyhoedd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau wrth ddatblygu unrhyw adnoddau ar gyfer optimeiddio meddyginiaethau. Caiff pob ymateb ei ystyried a'i drafod cyn i'r adnodd gael ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi.

Ar wefan AWTTC gallwch ddarllen mwy am sut i gyflwyno ymateb ac ymgynghoriadau sydd ar agor ar hyn o bryd.

## Aelodau lleyg o'n pwyllgorau

Mae aelodau lleyg yn aelodau pleidleisio llawn o AWMSG a'i is-grwpiau: NMG ac AWPAG. Mae'r aelodau lleyg yn cyflwyno'r farn a gafwyd gan gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r cyhoedd yng Nghymru. Eleni, gwnaethom gynyddu nifer yr aelodau lleyg ar bob pwyllgor o un i ddau.

E-bostiwch awttc@wales.nhs.uk i gael gwybod a oes gennym unrhyw rolau gwag ar gyfer aelodau lleyg a chofrestru eich diddordeb.

## Gwefan a chyfryngau cymdeithasol

Mae ein gwefan a'n sianel Twitter yn ddwy ffordd bwysig o gyfathrebu â'n rhanddeiliaid. Darllenwch am ein gwefan newydd a lansiwyd gennym ym mis Ionawr 2022.

Ewch i'n gwefan yn cttcg.gig.cymru a awttc.nhs.wales a dilynwch ni ar Twitter @AWTTCcymraeg a @AWTTCcomms.

## Cyfarfodydd AWMSG

Mae cyfarfodydd AWMSG yn agored i'r cyhoedd. Rydym yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd blaenorol a dyddiadau rhai'r dyfodol ar wefan AWTTC.

**3** chyfarfod PAPIG

24 siaradwr

97 o fynychwyr

**77** Derbyniwyd 77 o gyflwyniadau gan gleifion ar gyfer 21 o arfarniadau

**13** o ymgynghoriadau

11 o ymatebion gan gleifion, y cyhoedd neu gynrychiolwyr elusennau cleifion

**115,000** o ymweliadau â’r wefan

**452,000** o dudalennau wedi’u gweld

**55,000** o argraffiadau trydar

**>23,000** o ymweliadau proffil

**2** aelod lleyg ar bob pwyllgor

**9** cyfarfod AWMSG

# Cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol



## Pwyllgorau
Mae gan AWMSG a'i is-grwpiau gynrychiolaeth ddaearyddol ac amlbroffesiynol eang. Os hoffech wirfoddoli i ddod yn aelod cysylltwch ag AWTTC i gofrestru eich diddordeb.

## Cynigion prosiect
Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru gyflwyno cynnig prosiect i ddod â'u gwaith drwy broses gymeradwyo gadarn AWMSG, sy'n cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol.

## Ymgynghoriadau
Mae AWMSG yn cynhyrchu canllawiau presgripsiynu ac adnoddau optimeiddio meddyginiaethau eraill i helpu cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Cofrestrwch ddiddordeb i roi sylwadau ar yr adnoddau hyn neu ewch i'r dudalen ymgynghoriadau ar wefan AWTTC.

## Diwrnod Arfer Gorau AWTTC
Mae AWTTC yn cynnal cyfarfodydd Diwrnod Arfer Gorau rheolaidd, gan roi cyfle i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru rannu eu gwaith a'u prosiectau optimeiddio meddyginiaethau. Darllenwch am y digwyddiadau a gynhaliwyd yn Ebrill a Hydref 2021.

## Arbenigwyr clinigol
Rydym yn annog unrhyw glinigwyr sydd â diddordeb i gysylltu ag AWTTC am fwy o fanylion am waith AWMSG a'r ffyrdd y gallwch gymryd rhan. Gallai hyn gynnwys sganio'r gorwel, asesiadau technoleg iechyd a phrosiectau optimeiddio meddyginiaethau.

## Proses Meddyginiaethau Cymru'n Un
Gall clinigwyr gyflwyno cais i feddyginiaeth gael ei hystyried ar gyfer y broses Cymru'n Un drwy lenwi ffurflen gais meddyginiaeth.

## Cydweithio â rhwydweithiau clinigol
Cynhaliodd AWTTC a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) weminar 'diweddariad cyflym' therapiwteg i helpu i gefnogi presgripsiynu mewn gofal sylfaenol.

Mae AWTTC wedi cryfhau ei gysylltiadau â Rhwydwaith Canser Cymru ac mae is-grŵp canser sganio'r gorwel wedi'i ffurfio.

Mae AWTTC yn cydweithio â Grŵp Oncoleg Genomeg Cymru Gyfan (AWGOG) i hwyluso proses sganio'r gorwel Cymru gyfan ar gyfer meddyginiaethau manwl haemato-oncoleg a thiwmor solet.



Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein pwyllgorau:

**11** AWMSG

**10** NMG

**13** AWPAG

**13** o ymgynghoriadau optimeiddio meddyginiaethau

**143** o ymatebion ymgynghoriad

**2** Diwrnod Arfer Gorau

**133** o fynychwyr

**34** o arbenigwyr clinigol sy'n ymwneud ag asesiadau technoleg iechyd

**38** o arbenigwyr clinigol + **5** grŵp arbenigol yn ymwneud â datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau

# Cynnwys y diwydiant fferyllol



## Fforwm Diwydiant AWTTC (AIF)

Mae AWTTC yn gweithio'n agos gydag AIF (y Grŵp Partneriaeth Asesu Datblygiad Therapiwtig gynt) i gefnogi AWMSG i sicrhau bod meddyginiaethau newydd yn cael eu presgripsiynu'n ddiogel ac yn effeithiol yng Nghymru. Mae'r pynciau a drafodwyd mewn cyfarfodydd diweddar yn cynnwys dogfennau proses arfarnu AWMSG; rhaglen waith optimeiddio meddyginiaethau AWTTC; canllawiau arfer gorau AWMSG; cynaliadwyedd; a threfniadau masnachol.

## Sganio'r gorwel am feddyginiaethau newydd

Mae tîm sganio'r gorwel AWTTC yn casglu gwybodaeth am feddyginiaethau, arwyddion a fformwleiddiadau newydd sydd ar y gweill. UK PharmaScan yw prif ffynhonnell wybodaeth y tîm. Dysgwch fwy am sganio'r gorwel ar wefan AWTTC.

## Arfarniadau meddyginiaethau

Anogir cwmnïau i gymryd rhan ym mhroses arfarnu AWMSG cyn gynted ag y caiff amserlenni cyflwyno rheoleiddiol eu cadarnhau. Bydd AWTTC yn cadarnhau a yw meddyginiaeth yn bodloni meini prawf AWMSG ar gyfer arfarnu. Os yw'n gwneud hynny, gwahoddir cwmnïau fferyllol i gymryd rhan yng nghyfarfod AWMSG.

Mae gwybodaeth am y broses arfarnu ar wefan AWTTC.

## Ymgynghoriadau AWMSG


Ewch i'n tudalen ymgynghoriadau ar wefan AWTTC i ddarllen y dogfennau a rhoi adborth.

## Diwrnodau Agored AWMSG

Cafodd cwmnïau fferyllol gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o AWMSG ac AWTTC, ac i ddysgu mwy am ein gwaith. Dysgwch am ddiwrnodau agored AWMSG ar wefan AWTTC.

## Cyfarfodydd AWMSG

Mae cyfarfodydd AWMSG yn agored i'r cyhoedd. Rydym yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd blaenorol a dyddiadau rhai'r dyfodol ar wefan AWTTC.



**4**

**cyfarfod AIF**

**175**

**Nodwyd 175 o feddyginiaethau**

cysylltwyd â 38 o gwmnïau

**13** **ymgynghoriadau**

**30** o ymatebion gan y diwydiant fferyllol

**45**

o feddyginiaethau wedi'u hystyried ar gyfer arfarnu

**6** **diwrnod agored**

**10 pwnc**

**13 siaradwr**

**301 o fynychwyr**

**21**

arfarniad

**9** **cyfarfod AWMSG**

# Newyddion

## AWMSG a chynaliadwyedd



Ar ddechrau 2021, dechreuodd grŵp bach o staff yn AWTTC edrych ar sut roedd yr argymhellion yn strategaeth waith pum mlynedd AWMSG yn cyd-fynd â'r 7 nod a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Y 7 nod cysylltiedig yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Arweiniodd hyn at adroddiad a dynnodd sylw at waith blaenorol a chyfredol AWMSG i helpu Cymru i gyflawni'r nodau hyn – a dechreuwyd cynllun gweithredu ar gyfer AWTTC hefyd.

### Grŵp Cynaliadwyedd AWTTC

Ym mis Mehefin 2021 mynychodd staff AWTTC y gynhadledd Iechyd Gwyrdd Cymru rithwir gyntaf. Yna sefydlodd AWTTC Grŵp Cynaliadwyedd gyda'r nod o helpu AWTTC ac AWMSG i weithio tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Bydd y Grŵp yn helpu i sicrhau ein bod yn dilyn datblygu cynaliadwy – gan weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. A'n bod ni'n gweithio mewn ffyrdd cynaliadwy.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi 5 ffordd o weithio mewn ffordd gynaliadwy:

- ystyried y tymor hir;
- mabwysiadu agwedd integredig;
- cynnwys pobl;
- cydweithio; ac
- atal problemau rhag gwaethygu.


### Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd

Mae AWTTC yn bwriadu cwblhau ffurflen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd (EqHIA) ar gyfer holl brosiectau Optimeiddio Meddyginiaethau AWMSG, a phrosiectau a pholisïau AWTTC. Ein nod yw llenwi'r ffurflen ar ddechrau prosiect, ac yna byddai'n mynd gyda dogfen y prosiect drwy gydol ei datblygiad a'i chymeradwyaeth gan AWMSG.

Ar yr adeg ymgynghori, bydd y ffurflen ar gael ar wefan AWTTC ochr yn ochr â dogfennau'r prosiect, a gwahoddir yr holl randdeiliaid i roi sylwadau ar yr asesiad yn ogystal â dogfennau'r prosiect.

Dechreuodd AWTTC ddefnyddio ei ffurflen EqHIA ddiwedd 2021, ar gyfer prosiect am feddyginiaethau mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

# Dangosfwrdd newydd i helpu GIG Cymru i leihau'r ôl troed carbon o ddefnydd anadlyddion



Mae WAPSU wedi datblygu dangosfwrdd i adrodd ar gynnydd o ran lleihau ôl troed carbon anadlyddion a ddefnyddir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.  Fe'i lansiwyd yn swyddogol ym mis Ionawr 2022 ac mae ar gael i holl staff y GIG ei ddefnyddio ar y Gweinydd ar gyfer Presgripsiynu Gwybodaeth a Dadansoddi (SPIRA).

Mae'r dangosfwrdd yn mesur yr ôl troed carbon dangosol ar gyfer anadlyddion a gyflenwir mewn gofal sylfaenol. Adroddir hyn mewn uned fesur safonol, fel cyfwerthedd carbon deuocsid, ar gyfer y mathau a'r dosbarthiadau therapiwtig o anadlyddion a gyhoeddwyd. Nodir y metrigau allweddol o hyn ar lefel bwrdd iechyd, clwstwr a phractisau meddygon teulu.

## Beth mae'r dangosfwrdd yn ei wneud?

Mae'r dangosfwrdd yn cefnogi presgripsiynwyr i weithredu'r Canllaw Rheoli a Phresgripsiynu Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) a'r Canllaw Rheoli a Phresgripsiynu Asthma a ardystiwyd gan AWMSG.

Yn 2021, diweddarwyd y canllawiau hyn i annog ystyriaeth o Gynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru wrth bresgripsiynu anadlyddion. Mae'r canllawiau'n argymell presgripsiynu ffafriol ar gyfer anadlyddion powdr sych (DPIs) ac anadlyddion tarth meddal (SMIs). Mae'r mathau hyn o anadlyddion yn cael effaith amgylcheddol sylweddol is o'i gymharu â'r anadlyddion dos mesuredig a ddefnyddir yn fwy cyffredin. Nod Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yw cynyddu'r defnydd o anadlyddion sydd â photensial cynhesu byd-eang (GWP) isel; i gyrraedd targed o 80% o gyfanswm yr anadlyddion a gyhoeddir, erbyn 2025. Bydd y dangosfwrdd yn dangos cynnydd tuag at gyflawni'r targed hwn.

Mae AWTTC yn rhagweld y bydd y dangosfwrdd hefyd yn helpu i lywio sgyrsiau rhwng presgripsiynwyr a chleifion am ôl troed carbon eu hanadlyddion a, lle y bo'n briodol, newid i anadlyddion amgen. Er mai ffocws y dangosfwrdd yw annog y defnydd o anadlyddion sydd â GWP isel, dewis y claf yw'r ffactor pwysicaf o hyd.

## Pa mor aml y caiff ei ddiweddaru?

Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol o dan y teitl 'Measuring the carbon footprint of inhaler use within primary care in Wales'. Bwriedir i'r rhain fod yn drosolwg byr o rai o'r metrigau allweddol a roddir yn y dangosfwrdd datgarboneiddio.

Rhennir yr adroddiadau misol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yn y cyfarfodydd AWMSG cyhoeddus yn ogystal â'r cyfarfodydd AWPAG chwarterol.

## Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Mae'r adroddiadau ôl troed carbon anadlyddion ar gael i'r cyhoedd ar wefan AWTTC.

# AWMSG ac AWTTC yn lansio gwefan gyfun newydd

Ym mis Ionawr 2022, gwnaethom gwblhau'r broses o uno hen wefannau AWTTC ac AWMSG i lansio safle newydd – [cttcg.gig.cymru](cttcg.gig.cymru) (Cymraeg) a [awttc.nhs.wales](awttc.nhs.wales) (Saesneg). Mae'r wefan newydd hon yn dwyn ynghyd yr holl wybodaeth ac adnoddau ar gyfer y ddau sefydliad mewn un lle.

Canfu'r adolygiad annibynnol o AWMSG yn 2019 nad oedd pobl yng Nghymru yn aml yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng AWMSG ac AWTTC, a'u bod yn ddryslyd ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau'r ddau sefydliad.  Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ddod o hyd i adnoddau ac arweiniad ar y ddwy wefan wahanol.




Bydd dod â'r holl wybodaeth at ei gilydd ar un wefan yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i'r hyn y maent yn chwilio amdano ac mae'n helpu AWMSG ac AWTTC i gyflawni amcan cyffredin o 'gefnogi presgripsiynu darbodus i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau i gleifion yng Nghymru'.

**"Gwnaeth gweithio gydag ymgynghoriaeth ddigidol a chynnwys ein defnyddwyr ein helpu i strwythuro'r wefan newydd. Gobeithiwn fod gwefan AWTTC bellach yn dangos gwaith AWTTC ac AWMSG mewn ffordd sy'n sicrhau y gall ein cynulleidfa ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt yn hawdd."**

Dr Clare Elliott

Uwch Wyddonydd AWTTC ac arweinydd technegol y wefan

Buom yn gweithio gydag ymgynghoriaeth yng Nghaerdydd sy'n arbenigo mewn dylunio, datblygu a darparu llwyfannau digidol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Gyda'u cymorth nhw rydym wedi creu gwefan sy'n bodloni gofynion ein holl ddefnyddwyr.  Mae'r rhain yn cynnwys:  cydweithwyr GIG Cymru; clinigwyr; fferyllwyr; nyrsys a chynllunwyr; y diwydiant fferyllol; Llywodraeth Cymru; sefydliadau partner fel NICE a'r MHRA; prifysgolion; sefydliadau cleifion; cleifion, gofalwyr a'u teuluoedd; a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Gall unrhyw un sy'n defnyddio ein gwefan newydd roi eu barn a'u hawgrymiadau i ni drwy arolwg ar-lein.

Gallwch fynd i'r wefan drwy [cttcg.gig.cymru](cttcg.gig.cymru) (Cymraeg) a [awttc.nhs.wales](awttc.nhs.wales) (Saesneg). Byddai croeso mawr i'ch adborth.

## AWTTC yn cyd-gynnal Cyfarfod Blynyddol a gweithgareddau ymchwil HTAi



Cyd-lywyddodd AWTTC Gyfarfod Blynyddol Rhithwir Health Technology Assessment International (HTAi) 2021, ochr yn ochr â Gwella Gofal Iechyd yr Alban a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

Mae'r Cyfarfod Blynyddol yn cefnogi cenhadaeth HTAi i hyrwyddo datblygiad, dealltwriaeth a defnydd o asesu technoleg iechyd (HTA) ledled y byd, fel ffordd o feithrin arloesedd a defnydd effeithiol o adnoddau mewn gofal iechyd.

Daeth bron i fil o weithwyr proffesiynol HTA o bob cwr o'r byd i'r cyfarfod am ddau ddiwrnod o weithdai a thri diwrnod o gyflwyniadau.

Cynhaliodd AWTTC stondin arddangos rithwir a chyflwynwyd pum poster:

- Recommending pre-exposure prophylaxis for human immunodeficiency viruses
- Delivering hormone-sensitive prostate cancer treatment during COVID-19
- Developing an All Wales New Treatment Fund Monitoring System
- Implementation of One Wales recommendations
- The impact of the One Wales medicines process

Perfformiodd Only Men Aloud, côr meibion o Gymru, yn Nerbyniad Croeso HTAi. Gallwch wylio fideo o'u perfformiad ar wefan AWTTC.




**>4,250**

awr o gynnwys wedi'i weld gan fynychwyr


## Gweithgareddau ymchwil

Mae AWTTC yn gwneud gwaith ymchwil a datblygu i werthuso gwaith AWMSG. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:


1. cyhoeddi saith erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid:
   - Public awareness in Wales of the UK Yellow Card Scheme
   - AWMSG's medicines optimisation activities
   - Adverse drug reactions to herbal medicine
   - Dose-response relationships in aluminium toxicity
   - Medicines prescribed by non-medical independent prescribers
   - Impact of a National Reporting Indicator on reporting of adverse drug reactions
   - The effects of apixaban on clot characteristics in atrial fibrillation
2. cyfrannu at lawlyfr ymchwilio i achosion tybiedig o afiechydon o achoseg gemegol bosibl Sefydliad Iechyd y Byd
3. cyflwyno dau boster yn y Cyfarfod Gwyddonol Blynyddol Presgripsiynu ac Ymchwil mewn Rheoli Meddyginiaethau, a saith poster yng Nghyngres Ryngwladol Cymdeithas Canolfannau Gwenwynau Ewrop a Chyfarfod Rhithwir Tocsicoleg Clinigol.

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth First into Research i un o'n huwch fferyllwyr gan Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru (RCBCCymru) drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, i edrych ar ffyrdd o wella sganio'r gorwel i gefnogi mynediad cleifion at feddyginiaethau yng Nghymru.


Am fanylion am holl gyhoeddiadau blaenorol AWTTC gweler y dudalen Ein Hymchwil.







# Manteisio i'r eithaf ar fynediad ac effeithlonrwydd meddyginiaethau




Mae Adroddiadau Blynyddol blaenorol AWMSG wedi crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd drwy fonitro a gweithredu prosiect dwy flynedd "Buddsoddi i Arbed" Cynllun Mynediad Cleifion Cymru Gyfan. Mae rheolwyr prosiect Mynediad ac Effeithlonrwydd Meddyginiaethau AWTTC wedi parhau i adeiladu ar y gwaith llwyddiannus hwn.

Defnyddir System Gweinyddu Cynllun Mynediad Cleifion (PASAS) Blueteq gan y Rheolwyr Prosiect i fonitro'r cynlluniau mynediad cleifion (PAS) disgownt syml yn ganolog a chreu adroddiadau eithriadau misol ar gyfer y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth. Mae tynnu sylw at ddiffyg cydymffurfio a disgownt posibl a gollir bob mis yn caniatáu i'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth ymgysylltu â'r cwmnïau fferyllol yn gynnar i adennill unrhyw golled bosibl, gyda chymorth gan y rheolwyr prosiect lle bo angen.

Mae gweithgareddau rheolwyr prosiect AWTTC yn cynnwys:

- Cydweithio â Fferyllydd Arweiniol Caffael Cenedlaethol Cymru i alluogi trefniant gofal sylfaenol gan ganiatáu i gleifion gael gafael ar feddyginiaethau yn nes at eu cartrefi, a chefnogi polisi Llywodraeth Cymru hefyd i symud gwasanaethau allan o'r ysbyty ac i'r gymuned.
- Sicrhau bod gan fyrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth yng Nghymru fynediad at wybodaeth PAS gywir a diweddar cyn gynted â phosibl, drwy storfa ddiogel ar-lein AWTTC, y VAULT, i rannu manylion cyfrinachol, i'w cefnogi i fodloni amserlen gydymffurfio'r Gronfa Triniaethau Newydd.




- Bod yn aelodau allweddol o'r Tîm Mynediad i Feddyginiaethau Masnachol (CMAT) - tîm aml-sefydliad sy'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth yng Nghymru yn ogystal â chwmnïau fferyllol, gyda'r nod o gefnogi mynediad amserol at feddyginiaethau yn gysylltiedig â threfniant masnachol.
- Datblygu a chyflwyno crynodebau ariannol chwarterol ar gyfer y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth yng Nghymru.
- Annog ymgysylltu cynnar gan gwmnïau fferyllol o ran trefniadau masnachol, er mwyn sicrhau mynediad teg ac amserol at feddyginiaethau i gleifion yng Nghymru pan gyhoeddir FAD y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

GIG Cymru NHS Wales

abpi Bringing medicines to life

## Timau Mynediad i Feddyginiaethau Masnachol (CMAT)

Partneriaeth

GIG Cymru NHS Wales Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership



EMIG Ethical Medicines Industry Group

- Canoli prosesau mewn perthynas â threfniadau masnachol sy'n gysylltiedig ag argaeledd meddyginiaethau a argymhellir gan NICE ac AWMSG lle y bo'n bosibl, er mwyn lleddfu unrhyw faich gweinyddol posibl ar y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth.
- Cyflwyno gwybodaeth ategol, ac amserlenni wedi'u cynllunio, i'r diwydiant fferyllol a chydweithwyr yn y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth. Er enghraifft, roedd chwe Diwrnod Agored AWMSG rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

## System HCD Blueteq PGIAC

Caffaelwyd rhaglen feddalwedd Cyffuriau Cost Uchel (HCD) Blueteq ar gyfer Cymru gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a Llywodraeth Cymru yn 2018, i gefnogi'r gwaith o weithredu cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch a gomisiynwyd drwy PGIAC, fel y'u cefnogir gan Fwrdd Rhaglen ATMP.

Cafodd un o reolwyr y prosiect Mynediad ac Effeithlonrwydd Meddyginiaethau ei secondio'n rhan-amser ym mis Awst 2020 i helpu i ddatblygu a gweithredu system HCD Blueteq PGIAC, sydd bellach yn fyw. Bydd y system hon yn helpu GIG Cymru i bresgripsiynu a rheoli'r cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r therapïau cost uchel hyn.



## AWTTC yn tynnu sylw at y rôl sydd gan offer TG o ran sicrhau cymaint â phosibl o bresgripsiynu ar sail tystiolaeth


Mae AWTTC yn cydweithio â darparwyr ScriptSwitch® ac OptimiseRx® i dynnu sylw at negeseuon presgripsiynu allweddol AWMSG i bresgripsiynwyr yng Nghymru. Mae ScriptSwitch® ac OptimiseRx® yn ddau ateb TG sydd ar gael yng Nghymru, sy'n dangos triniaeth, canllawiau a materion diogelwch amgen, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ar adeg presgripsiynu.

### ScriptSwitch®

Yn y set gyntaf o negeseuon ScriptSwitch®, gweithiodd AWTTC i roi'r opsiwn i fyrddau iechyd fewnforio negeseuon sy'n cefnogi'r fenter Gwerth Isel am Bresgripsiynu yn GIG Cymru i bractisau meddygon teulu lleol. Mae'r ail set o negeseuon yn cefnogi'r Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru a'r Dangosydd Presgripsiynu Cenedlaethol – Datgarboneiddio Anadlyddion.

### OptimiseRx®

Roedd y gwaith gydag OptimiseRx® yn cynnwys datblygu negeseuon i gefnogi Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol - Dangosyddion Diogelwch Rhagnodi AWMSG. Mae neges sy'n annog y presgripsiynwr i gynnal adolygiad o feddyginiaeth y claf yn cael ei sbarduno, yn seiliedig ar wybodaeth am driniaeth yng nghofnod y claf. Rydym yn disgwyl y gall nodi cleifion sydd mewn perygl mawr o adweithiau niweidiol i gyffuriau a niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau helpu i nodi problemau a mynd i'r afael â hwy cyn i niwed ddigwydd.



### Presgripsiynu diogel ac effeithiol

Bydd y datblygiadau hyn yn cefnogi cyngor AWMSG ac yn helpu practisau meddygon teulu a byrddau iechyd i symud tuag at drothwyon Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol fel rhan o'r dull o gefnogi presgripsiynu diogel ac effeithlon. Bydd negeseuon presgripsiynu cenedlaethol clir, cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hyrwyddo presgripsiynu diogel ac effeithiol.

# Cyfarfodydd Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG)

Ailddechreuwyd cyfarfodydd PAPIG ym mis Gorffennaf 2021, ar ôl cael eu hatal ers dechrau'r pandemig COVID-19. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rhithwir gan gyrraedd cynulleidfa ehangach; roedd pobl o bob rhan o Gymru a rhannau eraill o'r DU yn bresennol. Roeddem yn falch o weld wynebau cyfarwydd aelodau PAPIG rheolaidd ac i groesawu llawer o rai newydd.  Anogir pawb i rannu barn, gofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau drwy gydol y cyfarfodydd ac i roi eu hadborth.

Y thema ar gyfer cyfarfod rhithwir cyntaf PAPIG ym mis Gorffennaf 2021 oedd cyfathrebu ac ymgysylltu. Rhoddodd staff AWTTC grynodeb o'r gwaith yr oedd AWTTC ac AWMSG wedi bod yn ei wneud i gefnogi cleifion a GIG Cymru yn ystod y pandemig. Rhannwyd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu AWMSG. Amlinellodd y siaradwyr bwysigrwydd cynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn gwahanol agweddau ar waith AWMSG. [Cliciwch yma am fwy o fanylion a fideo o gyfarfod PAPIG, Gorffennaf 2021](#).

Roedd cyfarfod PAPIG mis Tachwedd yn canolbwyntio ar ddata cleifion. Rhoddodd cynrychiolydd o Iechyd a Gofal Digidol Cymru drosolwg ar sut y caiff data cleifion ei gasglu, ei ddefnyddio a'i storio gan GIG Cymru a sut maent yn defnyddio data i lywio gofal cleifion a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Cafwyd sawl sgwrs ar sut mae AWTTC ac AWMSG yn defnyddio data i helpu i sicrhau presgripsiynu mwy diogel a gwell ar gyfer pobl Cymru.

> **"Hwn oedd fy nghyfarfod PAPIG cyntaf.  Roedd yn agoriad llygad ac yn ysbrydoledig o ran pa mor dda yr ydych yn ymgysylltu â'r claf. Siaradwyr diddorol ac amrywiol a wnaeth osgoi siarad jargon, sy'n hawdd gwneud pan fyddwch chi'n adnabod eich pwnc yn dda."**
>
> GUTS UK

> **"Roedd y cyfarfod yn dda iawn, diolch. Roedd yr holl gyflwyniadau'n ddiddorol, gan gynnwys y rhai a oedd yn llai uniongyrchol berthnasol i'n gwaith yn y Gymdeithas Psoriasis."**

Rhannodd un mynychwr ei farn ar y defnydd o'i ddata o safbwynt claf. [Cliciwch yma am fwy o fanylion a fideo o gyfarfod PAPIG, Tachwedd 2021.]

Y thema ar gyfer cyfarfod Mawrth 2022 oedd cymryd rhan. Rhannodd cynrychiolwyr o ddau sefydliad cleifion eu profiadau o fod yn rhan o brosesau mynediad at feddyginiaethau. Mae aelodau lleyg yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac yn darparu safbwynt y claf a'r cyhoedd mewn cyfarfodydd pwyllgor. Soniodd dau aelod lleyg presennol am bwysigrwydd eu rôl. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar sut y gallem estyn allan yn well at fwy o bobl am gyfleoedd aelodau lleyg. [Cliciwch yma am fwy o fanylion a fideo o gyfarfod PAPIG, Mawrth 2022.]

> **Roedd yn wych cael eglurder a gwybodaeth am AWTTC a'r hyn maen nhw'n ei wneud a chlywed gan aelodau eraill o'r trydydd sector gan ddefnyddio'r cyd-gynhyrchu a gynigir.**
>
> Bowel Cancer UK



## Diwrnodau Arfer Gorau

Cynhaliodd AWTTC ddau Ddiwrnod Arfer Gorau rhithwir yn 2021–2022, a oedd ar agor i holl aelodau pwyllgor a phresgripsiynwyr Cymru. Roedd y digwyddiadau ar-lein hyn yn canolbwyntio ar rannu rhywfaint o'r gwaith optimeiddio meddyginiaethau rhagorol sy'n digwydd yng Nghymru. Roeddent hefyd yn rhoi cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol ofyn unrhyw gwestiynau. Dyma grynodeb o'r cyflwyniadau a roddwyd yn y ddau ddigwyddiad.

### Ebrill 2021

- Cyflwynodd Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Acíwt a Ffarmacoleg Glinigol a Thocsicoleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro ar ran y grŵp dad-labelu alergedd penisilin (PADL). Roedd eu sgwrs yn ymdrin â sut y gellir ymchwilio i alergedd penisilin a sut mae'r rhan fwyaf o alergeddau penisilin yn ddi-sail, a rhoesant drosolwg o gynllun peilot i ddatblygu protocol lleol ar gyfer dad-labelu alergedd penisilin yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- Cyflwynodd Fferyllwyr Clinigol Integredig yn BIP Bae Abertawe ar ran y tîm rheoli meddyginiaethau ar gyfer cartrefi gofal. Roedd eu cyflwyniad yn disgrifio sut mae'r tîm wedi bod yn gweithio i ddod â gwasanaethau fferyllol yn agosach at breswylwyr cartrefi gofal, a sut mae gwelliannau i adolygiadau meddyginiaeth preswylwyr wedi sbarduno gwelliannau yn unol â Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol AWMSG.

Gwyliwch [fideos o'r cyflwyniadau ar wefan AWTTC.]()


### Hydref 2021

- Cyflwynodd Fferyllydd Practis sut mae eu practis meddyg teulu wedi newid y ffordd y mae'n rheoli clefydau cronig. Mae'r fenter yn canolbwyntio ar adolygiad meddyginiaeth blynyddol a ysgogir gan ddyddiad geni claf. Mae wedi arwain at adolygiadau meddyginiaeth amserol, effeithlon, darbodus, holistig o ansawdd uchel, gan gynnwys tîm cyfan y practis.
- Soniodd y Pennaeth Fferylliaeth, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am sut y nododd ei dîm anghysondebau gyda mesurau diogelwch sodiwm valproate mewn gofal sylfaenol ar draws y bwrdd iechyd, a sut y gwnaethant ddatblygu rhaglen i geisio rheoli'r risgiau sy'n weddill. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys hanes sodiwm valproate, yr archwiliad a ddatblygwyd ganddynt, eu strategaeth cyfathrebu ac addysg, a'r heriau niferus sy'n gysylltiedig â'r fenter lwyddiannus hon.

Gwyliwch [fideos o'r cyflwyniadau ar wefan AWTTC.]()

# Diwrnodau Agored AWMSG


Ar ôl llwyddiant Diwrnod Agored AWMSG Mawrth 2021, cyflwynodd AWTTC chwe sesiwn Diwrnod Agored rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, gyda chymorth Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain. Cyflwynodd 13 o siaradwyr ddeg pwnc a ddenodd fwy na 300 o weithwyr proffesiynol yn y diwydiant.




Roedd y pynciau'n cynnwys proses asesu technoleg iechyd AWMSG; y fframwaith optimeiddio meddyginiaethau; y dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol; Proses Meddyginiaethau Cymru'n Un; mynediad i'r farchnad yng Nghymru; a phwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar.

Gwyliwch [fideos o'r cyflwyniadau ar wefan AWTTC.]

Mae ein rhaglen Diwrnod Agored wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn, ac mae AWTTC yn edrych ymlaen at gyflwyno dau Ddiwrnod Agored arall yn ystod 2022.




## Adborth o Ddiwrnod Agored Mawrth 2022:

> Roedd y cwestiynau ar y dechrau yn dda i nodi lle'r oedd bylchau yn fy ngwybodaeth.

> Sesiwn, cyflwynwyr a fformat gwych! Diolch

## Ymateb i'r pandemig COVID-19

Parhaodd AWTTC i ymateb i heriau'r pandemig COVID-19. Roedd ein cynllun gweithredol yn cynnwys y blaenoriaethau gwaith ychwanegol canlynol.

**Cynnal y Ganolfan Therapiwtig COVID-19 ar wefan AWTTC**


**Cynnal VAULT AWTTC lle'r oedd Llywodraeth Cymru a staff allweddol y GIG yn rhannu gwybodaeth sensitif a beirniadol yn ymwneud â COVID-19**

**Monitro a chyflwyno adroddiadau ar stociau meddyginiaethau critigol fferyllfeydd ysbytai, gan sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael**


**Gwaith goruchwylio gwenwynau parhaus mewn cydweithrediad â Sefydliad Iechyd y Byd ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr mewn perthynas ag ymholiadau yn ymwneud â COVID-19 a allai godi amheuon neu rybuddion i iechyd y cyhoedd**

**Mewnbwn i'r grŵp rhanddeiliaid clinigol ledled y DU a Pholisi Comisiynu Clinigol Interim ar gyfer meddyginiaethau a ddefnyddir i drin haint COVID-19**

**Darparu gwasanaeth clinigol i gynghori ar ymholiadau ymateb cyffuriau niweidiol sy'n gysylltiedig â'r brechlyn COVID-19 ym mhob rhan o Gymru**




**Cydweithredu â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau (NPIS) i weithredu gweithdrefn i leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty a oedd yn gysylltiedig â gwenwyno er mwyn ysgafnhau'r baich ar yr adrannau achosion brys a'r gwasanaethau ambiwlans**



**Mewnbwn i'r grŵp rhanddeiliaid clinigol ledled y DU a Pholisi Comisiynu Clinigol Interim ar gyfer meddyginiaethau a ddefnyddir i drin haint COVID-19**



**Rhoi cyngor pwrpasol i'r gwasanaeth ar gleifion a allai fod wedi cael budd o driniaeth ond a oedd wedi'u heithrio o dreialon clinigol**



**Cymryd rhan yn y treial RECOVERY a phrosiect cydweithredol ar ymchwil COVID-19**



**Cydgysylltu Polisi Cyflenwi Meddyginiaethau Am Ddim Cymru Gyfan a oedd yn galluogi i argymhellion interim gan GIG Lloegr gael eu defnyddio yn GIG Cymru**



**Cysylltu â chwmnïau fferyllol i sicrhau bod GIG Cymru yn elwa o'r trefniadau masnachol sy'n cael eu cynnig i GIG Lloegr**

Bydd AWTTC yn parhau i gefnogi AWMSG, GIG Cymru a Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod adfer.

# Optimeiddio meddyginiaethau

Mae optimeiddio meddyginiaethau yn canolbwyntio ar gleifion a chanlyniadau yn hytrach na phrosesau a systemau. Ei nod yw cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynghori cleifion ar sut y gallant gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau. Gall hyn olygu atal rhai meddyginiaethau neu ddechrau eraill i sicrhau bod claf yn cymryd y feddyginiaeth fwyaf diogel sy'n gweithio orau i drin ei gyflwr. Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd yn cynghori cleifion ar y ffordd orau o gadw at driniaeth. Er mwyn helpu cleifion a phresgripsiynwyr i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau, mae AWMSG yn cyhoeddi canllawiau ac adnoddau presgripsiynu, yn ogystal ag adroddiadau ar berfformiad presgripsiynu.

## Fframwaith optimeiddio meddyginiaethau

Cyhoeddwyd y fframwaith hwn gennym ym mis Ebrill 2021. Mae'n manylu ar y prosesau y tu ôl i ddatblygu adnoddau ar gyfer optimeiddio meddyginiaethau a gymeradwyir gan AWMSG ac a gyhoeddir ar wefan AWTTC. Mae'r fframwaith yn disgrifio sut y cynigir prosiectau newydd, ac yn egluro sut y caiff y cynigion hyn eu hystyried. Mae hefyd yn diffinio'r prosesau cysylltiedig o:

- ymgynghori;
- adolygu adnoddau ar ôl eu cyhoeddi; a
- chydnabod adnoddau gan AWMSG, sy'n wahanol i'r broses gymeradwyo lawn.

Lluniwyd y fframwaith gennym i annog ymgysylltiad gan yr holl randdeiliaid: o gynnig prosiectau newydd a chymryd rhan yn ein hymgynghoriadau hyd at ddefnyddio a rhoi adborth ar ein hadnoddau ar ôl eu cyhoeddi. [Gallwch weld y fframwaith llawn ar wefan AWTTC.]




## Canllawiau ac adnoddau presgripsiynu

Rydym wedi datblygu a chyhoeddi ystod o ganllawiau ac adnoddau presgripsiynu yn ystod mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022.

### Rheolaeth glinigol gychwynnol ar gyfer oedolion sy'n ysmygu mewn gofal eilaidd

Nod y canllawiau hyn yw hysbysu a thywys staff gofal iechyd yn GIG Cymru ynghylch sut i ddechrau therapi disodli nicotin (NRT) i reoli symptomau diddyfnu nicotin mewn oedolion sy'n ysmygu ac sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty (gofal eilaidd). Mae'r ddogfen yn esbonio sut i gefnogi: cleifion sydd am geisio rhoi'r gorau iddi; cleifion nad ydynt yn dymuno dechrau rhoi'r gorau iddi ond sydd am gael NRT i reoli symptomau diddyfnu nicotin tra byddant yn yr ysbyty; yn ogystal â chleifion allanol, teuluoedd a ffrindiau cleifion, a staff ysbytai. [Gallwch weld y canllaw llawn ar wefan AWTTC.]

### Deunydd i gefnogi presgripsiynu hypnotigau a chyffuriau lleihau gorbryder yn briodol ledled Cymru

Nod y pecyn addysgol hwn yw cefnogi presgripsiynu meddyginiaethau hypnotig a chyffuriau lleihau gorbryder yn briodol ledled

Cymru. Mae'n rhoi dull ymarferol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyfer dechrau ac adolygu presgripsiynu hypnotigau a chyffuriau lleihau gorbryder. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o ddeunyddiau cymorth ar gyfer presgripsiynwyr a chleifion y gellir eu defnyddio neu eu haddasu at y diben hwn.

Rydym yn rhagweld y bydd mabwysiadu'r enghreifftiau 'arfer gorau' a gyflwynir yn y pecyn hwn yn helpu i leihau presgripsiynu hirdymor ar gyfer y meddyginiaethau hyn. Gallwch weld y canllaw llawn ar wefan AWTTC.




## Cyngor Cymru gyfan ar atalyddion cotransporter-2 sodiwm-glwcos (SGLT-2) mewn diabetes math 2 a chlefyd cardiofasgwlaidd

Datblygwyd y canllawiau hyn i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i bresgripsiynu atalyddion SGLT-2 i gleifion sydd â diabetes mellitus math 2 a chlefyd cardiofasgwlaidd. Mae'r ddogfen yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar gyfer defnyddio atalyddion SGLT-2 mewn diabetes mellitus math 2 mewn perthynas â chanlyniadau cardiofasgwlaidd ac arennol.

Mae hefyd yn amlinellu argymhellion presgripsiynu ar rôl atalyddion SGLT-2 yn y boblogaeth hon o gleifion, ac mae'n cynnwys crynodeb tystiolaeth un dudalen ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth ddewis pa ataliwr SGLT-2 i'w bresgripsiynu. Gallwch weld y canllaw llawn ar wefan AWTTC.





## Adnoddau addysgol tramadol

Nod deunyddiau'r adnoddau hyn yw cefnogi presgripsiynu tramadol yn briodol yn GIG Cymru drwy ddarparu deunyddiau archwilio i weithwyr gofal iechyd proffesiynol i adolygu presgripsiynu tramadol i reoli poen. Gallwch weld y canllaw llawn ar wefan AWTTC.

## Canllawiau rheoli a phresgripsiynu Cymru gyfan – asthma mewn oedolion a COPD


Cyhoeddwyd y canllawiau hyn am y tro cyntaf gyda'r nod o leihau amrywiadau mewn presgripsiynu anadlyddion ledled Cymru. Diweddarwyd y canllawiau yn 2021 i annog presgripsiynwyr i ystyried agenda datgarboneiddio GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys argymell presgripsiynu ffafriol ar gyfer anadlyddion powdr sych (DPI) yn hytrach nag anadlyddion dos mesuredig (MDA), oherwydd yr effaith amgylcheddol sylweddol is sy'n gysylltiedig â defnyddio DPI. Gallwch gael

mynediad i’r canllawiau [asthma] a [COPD] llawn ar wefan AWTTC.




## Cyngor Cymru gyfan ar wrthgeulo geneuol ar gyfer ffibriliad atrïaidd anfalfaidd

Gwnaethom ddiweddaru’r canllaw hwn ym mis Chwefror 2022 i adlewyrchu newidiadau i ganllawiau NICE. Mae’r canllaw’n canolbwyntio ar drin ffibriliad atrïaidd anfalfaidd (NVAF) gyda gwrthgeulyddion geneuol. Mae hefyd yn cynnwys offeryn asesu risg/budd, a chrynodeb un dudalen ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy’n dewis gwrthgeulydd geneuol uniongyrchol ar gyfer y cleifion hyn. Gallwch weld y canllaw llawn ar wefan AWTTC.




## Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol

Datblygwyd y canllawiau hyn i roi cyngor cynhwysfawr ar drin heintiau bacteriol cyffredin mewn gofal sylfaenol yn wrthficrobaidd, gan ystyried pathogenau lleol a data tueddiad gwrthficrobaidd yng Nghymru. Nod y canllawiau yw rhoi dull syml, effeithiol, economaidd ac empirig o drin heintiau cyffredin; a lleihau ymddangosiad ymwrthedd bacteriol. Gallwch weld y canllawiau llawn ar wefan AWTTC.




## Archwiliad Cenedlaethol CEPP - canolbwyntio ar bresgripsiynu gwrthfiotigau


Mae defnyddio’r gwrthfiotigau cywir dim ond pan fo angen, ar y dos cywir ac am y cyfnod cywir, yn hanfodol er mwyn helpu i leihau ymwrthedd i wrthfiotigau. Nod yr archwiliadau hyn yw:

- hyrwyddo presgripsiynu gwrthfiotigau yn unol â chanllawiau presennol (gan gynnwys y Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol a gymeradwywyd gan AWMSG); a
- chefnogi clinigwyr i wella ansawdd drwy hyrwyddo adolygiad o bresgripsiynu gwrthficrobaidd.

Gallwch weld y templedi archwilio a digidol llawn ar wefan AWTTC.

**Rheoli haint *Clostridioides difficile* yng Nghymru**

Mae'r canllawiau hyn yn darparu strategaeth bresgripsiynu wrthficrobaidd hygyrch sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli haint Clostridioides difficile mewn oedolion. Mae'n cyflwyno dysgu wedi'i ddiweddaru o ganllawiau blaenorol a chyfredol y DU a chyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid. Bwriedir iddo ategu'r canllawiau presennol, ac nid yw'n disodli canllawiau NICE. Gallwch weld y canllaw llawn ar wefan AWTTC.




**Rheoli haint llwybr wrinol symptomatig ailadroddus mewn menywod sy'n oedolion**


Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at yr holl staff meddygol, nyrsio a fferylliaeth cymunedol ac anarbenigol sy'n ymwneud â phresgripsiynu i drin heintiau ailadroddus ar y llwybr wrinol (UTI) mewn menywod nad ydynt yn feichiog, nad ydynt wedi'u cathetreiddio ac sy'n 16 oed a hŷn. Y bwriad yw rhoi canllawiau ymarferol i ymarferwyr gofal sylfaenol ar leihau'r risg o UTI, yn ogystal â rhoi opsiynau triniaeth nad ydynt yn wrthficrobaidd. Gallwch weld y canllaw llawn ar wefan AWTTC.

## Adnoddau cydnabyddedig

Mae AWMSG wedi cydnabod bod y mentrau canlynol yn arfer da a'u bod yn cyd-fynd â nodau Strategaeth Pum Mlynedd AWMSG 2018-2023:

- Rhwymynnau clwyfau gwrthficrobaidd (AWDs) - Datganiad, argymhellion a chanllawiau (Bwrdd Caffael ar Sail Tystiolaeth)
- Canllawiau llid yr isgroen ar gyfer pobl â lymffoedema/oedema cronig yn GIG Cymru (Rhwydwaith Clinigol Lymffoedema Cymru)
- Methiant y galon yng Nghymru – Dull paralel (Grŵp Cyfeirio Arbenigol Methiant y Galon Cymru).

Gallwch ddarganfod mwy am yr holl adnoddau a gydnabyddir gan AWMSG ar wefan AWTTC.



# Monitro a dadansoddi presgripsiynu

Mae AWMSG yn monitro ac yn dadansoddi data presgripsiynu er mwyn meincnodi perfformiad ac ysgogi gwelliannau o fewn y GIG yng Nghymru.

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs)

Lle mae negeseuon diogelwch, stiwardiaeth neu effeithlonrwydd clir sy'n gallu dangos arfer da, mae'n ddefnyddiol yn aml i bresgripsiynwyr feincnodi eu hunain yn erbyn eraill. Gallai hyn fod ar lefel bwrdd iechyd, clwstwr neu bractis. Er mwyn hwyluso hyn, mae AWMSG o'r farn bod NPIs yn offer defnyddiol iawn i hyrwyddo presgripsiynu rhesymegol ym mhob rhan o GIG Cymru a chyhoeddwyd y gyfres gyntaf o NPIs yn 2003.

Defnyddir NPIs i dynnu sylw at flaenoriaethau therapiwtig ar gyfer GIG Cymru a chymharu'r ffyrdd y mae gwahanol bresgripsiynwyr a sefydliadau yn defnyddio meddyginiaethau neu grwpiau o feddyginiaethau penodol. Mae dangosyddion presgripsiynu yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir ac yn hawdd eu deall, ac yn caniatáu i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, clystyrau gofal sylfaenol, practisau meddygon teulu a phresgripsiynwyr gymharu arferion cyfredol â safon ansawdd y cytunwyd arni. Mae'r NPIs yn mynd i'r afael ag effeithlonrwydd yn ogystal â diogelwch ac ansawdd, ac mae'r targedau'n heriol ond yn gyraeddadwy, ac yn berthnasol ar lefel practis.

## NPIs 2021–2022

Oherwydd y pwysau llwyth gwaith yn y GIG sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19, penderfynwyd y dylid dwyn yr NPIs a ardystiwyd ar gyfer 2020–2021 ymlaen i 2021–2022.

Mae'r 15 NPI a ardystiwyd gan AWMSG yn canolbwyntio ar 9 maes presgripsiynu meddyginiaethau ac adrodd am ddigwyddiadau andwyol (drwy Gardiau Melyn). Mae'r NPIs yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth (analgesig, gwrthgeulyddion mewn ffibriliad atrïaidd a stiwardiaeth wrthficrobaidd), sydd wedyn yn cael eu hategu gan ddangosyddion sydd wedi'u grwpio ym meysydd 'diogelwch' ac 'effeithlonrwydd'.

**NPIs 2021–2022 – Meysydd blaenoriaeth a meysydd ategol**

**Maes Blaenoriaeth**

- Poenleddfwyr
- Defnyddio gwrthgeulyddion i drin ffibriliad atriaidd
- Stiwardiaeth Wrthficrobaidd


**Parthau Ategol**

| *Diogelwch* | *Effeithlonrwydd* |
|---|---|
| Dangosyddion Diogelwch Rhagnodi | Meddyginiaethau bioleg gwerth gorau |
| Atalyddion Pympiau Proton | Inswlin |
| Cyffuriau Hypnotig a Lleihau Gorbryder | Blaenoriaeth isel ar gyfer ariannu |
| Cardiau Melyn | |

## Monitro NPI

Mae AWTTC yn llunio adroddiad chwarterol sy'n dadansoddi perfformiad pob bwrdd iechyd yn erbyn y set bresennol o NPIs. Gallwch weld yr adroddiadau hyn ar wefan AWTTC. Dylid ystyried effaith bosibl y pandemig COVID-19 ar bresgripsiynu ac adrodd drwy gardiau melyn wrth adolygu'r data yn yr adroddiadau hyn.

Mae'r Gweinydd Adrodd a Dadansoddi Gwybodaeth Bresgripsiynu (SPIRA) yn cael ei ddiweddaru bob chwarter gyda data NPI ar gyfer byrddau iechyd, clystyrau a phractisau meddygon teulu unigol yng Nghymru, sy'n rhoi golwg fanylach ar bresgripsiynu lleol. Gall defnyddwyr ar Rwydwaith GIG Cymru ddefnyddio'r rhaglen ryngweithiol hon i ddadansoddi data presgripsiynu yn gymharol. Mae hefyd yn cynnwys dangosfwrdd datgarboneiddio AWTTC (gweler Tudalen 18).




## NPIs 2022–2023

Cymeradwywyd yr NPIs ar gyfer 2022–2023 gan AWMSG a'u cyhoeddi ym mis Ionawr 2022. Cafodd y Wybodaeth Ategol ar gyfer Presgripsiynwyr a Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ym mis Chwefror 2022.  Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan AWTTC.

Ar gyfer 2022–2023, mae'r NTIs yn canolbwyntio ar 4 maes blaenoriaeth, gydag ychwanegiad 'datgarboneiddio anadlyddion'. Mae dangosydd ychwanegol sy'n canolbwyntio ar 'opioidau cryfder uchel' wedi'i gynnwys yn y maes blaenoriaeth 'analgesig'. Newid allweddol arall ar gyfer 2022–2023 yw dileu'r dangosyddion ar gyfer 'atalyddion pwmp proton' a 'chydweddau inswlin hirdymor'.







# Asesiad Technoleg Iechyd

Mae AWMSG yn cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch p'un a ddylid darparu meddyginiaethau newydd i'w defnyddio yn GIG Cymru. Caiff meddyginiaethau newydd eu harfarnu i ystyried:

- pa mor dda y maent yn gweithio yn y byd go iawn (effeithiolrwydd clinigol);
- pa mor gost-effeithiol ydynt; a
- pha gleifion fyddai'n elwa fwyaf arnynt.

## Cyngor a gyhoeddwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022



**21 o feddyginiaethau wedi'u harfarnu**



**20 o feddyginiaethau wedi'u hargymell**




**4 meddyginiaeth wedi'u hargymell ar gyfer defnydd 'optimeiddiedig'***



**1 feddyginiaeth heb ei hargymell**




**17 Datganiad Cyngor wedi'u cyhoeddi ar feddyginiaethau nas arfarnwyd i GIG Cymru**




**Darparu cyngor ar gyfanswm o 38 o feddyginiaethau i GIG Cymru**

* Meddyginiaeth a argymhellir i'w defnyddio mewn is-set lai o gleifion na'r hyn a nodwyd yn wreiddiol gan yr awdurdodiad marchnata. Cyfeirir at y meddyginiaethau hyn yng Nghymru hefyd fel rhai a argymhellir ar gyfer 'defnydd cyfyngedig'.

## Nifer y meddyginiaethau a argymhellwyd ac na argymhellwyd




## Math y cyflwyniad am arfarniad




*Proses wedi'i chyflwyno yn 2021
**Ailasesiad o emtricitabine/tenofovir disoproxil

## Datblygiadau yn y broses arfarnu

### Y Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol (ILAP) newydd

- Ym mis Hydref 2021, daeth AWTTC yn bartner yn y fenter ILAP, gan weithio gyda chydweithwyr yn yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Chonsortiwm Meddyginiaethau'r Alban (SMC).
- Mae ILAP yn fenter asesu rheoleiddio a thechnoleg unigryw yn y DU sy'n ceisio cefnogi mynediad diogel, cynnar, effeithlon ac ariannol gynaliadwy i gleifion at feddyginiaethau arloesol.
- Mae'n golygu cydweithio digynsail rhwng yr MHRA ac asiantaethau Asesu Technoleg Iechyd y DU, gyda'r potensial i alinio gofynion rheoleiddio a mynediad gan greu prosesau mwy effeithlon a llai o ddyblygu.

Mae cynrychiolaeth AWTTC ar ILAP yn sicrhau bod anghenion cleifion yng Nghymru yn cael eu nodi a'u hystyried yn gynnar yn y broses.

Darllenwch fwy am y Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol.

### Proses AWMSG ar gyfer arfarnu estyniadau i drwyddedau at ddefnydd pediatrig

Lansiwyd proses AWMSG ar gyfer arfarnu estyniadau i drwyddedau i'w defnyddio mewn pobl iau na 18 oed ym mis Mawrth 2021. O'i weithrediad tan ddiwedd mis Mawrth 2022, mae cyfanswm o ddeg cyflwyniad am estyniadau i drwyddedau pediatrig wedi'u prosesu drwy'r llwybr hwn. Argymhellwyd y dylid defnyddio pob un ohonynt gan gynnwys dau a oedd wedi cael datganiad o gyngor yn flaenorol. Mae'r broses wedi darparu llwybr symlach a chyflymach, o gyflwyno i argymhelliad AWMSG, ar gyfer meddyginiaethau sy'n bodloni'r meini prawf, gan ddod â manteision i blant a phobl ifanc yng Nghymru gyda mynediad amserol a theg at feddyginiaethau sydd eisoes ar gael fel mater o drefn i oedolion yng Nghymru.

Mae rhagor o fanylion am y broses i'w gweld ar wefan AWTTC.

### Proses ddiwygiedig ar gyfer adolygu argymhellion arfarnu terfynol

Er mwyn sicrhau bod argymhellion AWMSG yn parhau'n ddilys, mae argymhellion arfarnu terfynol (FARs) a gyhoeddwyd ers mis Hydref 2011 wedi'u hadolygu bob tair blynedd. Fel ym mis Mawrth 2022, mae 192 o feddyginiaethau wedi cael eu hadolygu o leiaf unwaith gan AWTTC.

Cyflawnwyd hyn drwy gasglu gwybodaeth a defnyddio rhestr wirio i nodi unrhyw newidiadau arwyddocaol i dystiolaeth a allai effeithio ar y FAR gwreiddiol.


Er mwyn creu arbedion effeithlonrwydd yn y broses arfarnu, newidiwyd y broses adolygu ym mis Tachwedd 2021 i gymhwyso system categori ar bwynt adolygu cyntaf FAR AWMSG (tair blynedd ar ôl ei gyhoeddi gyntaf). Mae hyn yn caniatáu dull mwy penodol o ymdrin â'r meddyginiaethau hynny sydd fwyaf tebygol o elwa o ymchwiliad neu ailasesiad pellach, ac mae'n helpu i benderfynu pa feddyginiaethau a all symud i restr statig.

### Gweithio gyda sefydliadau cleifion, arbenigwyr clinigol a diwydiant i sicrhau arfarniad ar gyfer meddyginiaeth clefyd prin yng Nghymru

Trwyddedwyd nitisinone fel yr opsiwn triniaeth cyntaf ar gyfer alkaptonuria (AKU), anhwylder genetig prin, ym mis Hydref 2020. Cysylltodd cymdeithas AKU ag AWTTC i dynnu sylw at angen nas diwallwyd ar gyfer cleifion yng Nghymru, gan nodi bod nitisinone ar gael i gleifion yn Lloegr drwy gomisiynu cenedlaethol. Oherwydd y trwyddedu sydd ar fin dod i rym ar gyfer meddyginiaethau generig, nid oedd yn bosibl i ddeiliad awdurdodiad marchnata (MA) nitisinone gyflwyno am arfarniad asesu technoleg iechyd (HTA).

Cydweithiodd AWTTC â chymdeithas AKU, arbenigwyr clinigol a deiliad MA nitisinone i werthuso'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn gyhoeddus. Gwnaeth hyn ganiatáu asesiad cadarn drwy HTA, a phenderfyniad ar ariannu rheolaidd i gleifion. Mae cam ychwanegol ym mhroses AWMSG i asesu meddyginiaethau ar gyfer clefydau prin yn ystyried safbwyntiau clinigwyr a chleifion, sy'n hwyluso trafodaeth ar faterion cymdeithasol ehangach. Mae aelodau AWMSG yn ystyried yr ystyriaethau ehangach hyn wrth arfarnu meddyginiaeth ar gyfer clefyd prin.

Ym mis Medi 2021, rhoddodd AWMSG argymhelliad cadarnhaol ar gyfer nitisinone, a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru.








## Cynllun Mynediad Cleifion Cymru (WPAS)

Rhwng 2011 a 31 Mawrth 2022, cyflwynwyd cyfanswm o 80 o gynigion WPAS i'w hadolygu. Mae'r gyfran fwyaf (65%) o gyflwyniadau WPAS wedi bod ar gyfer cynlluniau syml (n = 52), ac ystyriwyd ei bod yn ddichonol gweithredu 45 o'r rhain gan y Grŵp Cynllun Mynediad Cleifion Cymru (PASWG), ailgyflwynwyd 6 fel cynlluniau cymhleth a diddymwyd 1 o'r broses adolygu. Hyd at 31 Mawrth 2022, cyflwynwyd 28 o gynigion WPAS cymhleth, ac ystyriwyd bod 19 o'r rhain yn ddichonadwy i'w gweithredu gan PASWG. O'r 9 cyflwyniad cymhleth a oedd yn weddill, ystyriwyd nad oedd 3 yn ddichonadwy a diddymwyd 6. Hyd at 31 Mawrth 2022, Mae cynnwys WPAS yng nghyflwyniad y cwmni i broses arfarnu AWMSG wedi galluogi mynediad cleifion i 55 o feddyginiaethau yng Nghymru.

Mae angen adolygu a datblygu proses cyflwyno a gweithredu WPAS, ynghyd â monitro cynlluniau i gadarnhau gweithio effeithiol a'r elw mwyaf posibl, er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf i GIG Cymru, tra'n parhau i sicrhau mynediad amserol i feddyginiaethau effeithiol a chost-effeithiol i gleifion.



# Aelodaeth

## AWMSG

| Swydd | Aelod | Dirprwy |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Yr Athro Iolo Doull | |
| Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus | Yr Athro Stephen Monaghan | Aros am enwebiad |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Ms Eleri Schiavone | Dr Helen Fardy |
| Economegydd Iechyd | Yr Athro Dyfrig Hughes | Yr Athro Deborah Fitzsimmons<br>Yr Athro Pippa Anderson |
| ABPI (Cymru) | Ms Kate Parrish<br>Mr Tommy Price<br>Mr Farhan Mughal | Mae presenoldeb yn cael ei gylchdroi rhwng y tri unigolyn a enwir |
| Cynrychiolydd lleyg | Mr Cliff Jones | Aros am enwebiad |
| Cynrychiolydd lleyg | Ms Claire James | Aros am enwebiad |
| Fferyllydd Cymunedol | Mr Stefan Fec<br>(hyd at fis Chwefror 2022) | Mr Dylan Jones |
| Cyfarwyddwr Meddygol | Dr Jim McGuigan | Aros am enwebiad |
| Meddyg teulu â rôl bresgripsiynu arweiniol | Dr Jeremy Black | Aros am enwebiad |
| Fferyllydd Sector a Reolir | Ms Alison Hughes | Ms Rafia Jamil |
| Fferyllydd Sector a Reolir | Mr John Terry | Mr Stuart Rees |
| Cyfarwyddwr Cyllid | Mr Hywel Pullen | Mr James Leaves |
| Uwch Nyrs | Mrs Louise Williams<br>(hyd at fis Chwefror 2022) | Mrs Mandy James |
| Proffesiynau gofal iechyd eraill sy'n gymwys i bresgripsiynu nad oes ganddynt eisoes gynrychiolaeth | Mr Aled Falvey<br>(hyd at fis Awst 2021)<br><br>Mrs Cathy Wynne<br>(o fis Medi 2021) | Mrs Cathy Wynne<br>(hyd at fis Awst 2021)<br><br>Mr Karl Jackson<br>(o fis Medi 2021) |
| Ffarmacolegydd Clinigol | Dr Balwinder Bajaj<br>(hyd at fis Ionawr 2022)<br><br>Dr Alison Thomas<br>(o fis Chwefror 2022) | Dr Alison Thomas<br>(hyd at fis Ionawr 2022)<br><br>Dr Manjeet Singh<br>(o fis Chwefror 2022) |
| Ymgynghorydd Allanol Ysbyty | Dr Samantha Cox | Dr Satish Kumar<br>(hyd at fis Ionawr 2022) |

# AWPAG

| Swydd a disgyblaeth | Aelod | Bwrdd iechyd/ ymddiriedolaeth | Bob yn ail |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd, Ffarmacolegydd Clinigol Ymgynghorol | Dr Laurence Gray | Caerdydd a'r Fro | Mrs Clare Clement |
| Meddyg o bob bwrdd iechyd sy'n adlewyrchu rolau gwahanol | | | |
| Meddyg Teulu | Dr Rebecca McGee | Aneurin Bevan | Dr David Pyle (Powys) |
| Ymgynghorydd Allanol Ysbyty/Meddyg Teulu | Aros am enwebiad | Betsi Cadwaladr | |
| Ymgynghorydd Allanol Ysbyty/Meddyg Teulu | Aros am enwebiad | Cwm Taf Morgannwg | |
| Ymgynghorydd Allanol Ysbyty | Dr Laurence Gray | Caerdydd a'r Fro | |
| Meddyg Teulu | Dr Richard Brown | Hywel Dda | |
| Ymgynghorydd Allanol Ysbyty | Dr Anders Skarsten (i Awst 21) | Powys | |
| Meddyg Teulu | Dr Phil Cox | Bae Abertawe | |
| Ymgynghorydd Allanol Ysbyty | Aros am enwebiad | Felindre | |
| Fferyllydd o bob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth sy'n adlewyrchu rolau gwahanol | | | |
| Ymgynghorydd Presgripsiynu | Mr Hywel Jones | Aneurin Bevan | Ms Emily Knight |
| Fferyllydd | Aros am enwebiad | Betsi Cadwaladr | Mr Ben Woodhouse |
| Fferyllydd | Mrs Clare Clement | Caerdydd a'r Fro | Miss Karen May (i fis Mawrth 22) |
| Fferyllydd | Mrs Helen Davies<br>Ms Kate Spittle (i Awst 21) | Cwm Taf Morgannwg | Mrs Avril Tucker |
| Ymgynghorydd Presgripsiynu | Mrs Hazel Hopkins | Hywel Dda | Mrs Sue Beach<br>Ms Jenny Pugh-Jones |
| Fferyllydd Cymunedol | Mr Dylan Jones (i Chwefror 22) | Powys | Mr Adrian Byrne<br>Mr Sudhir Sehrawat (Cymuned) |
| Fferyllydd | Mr Darren Smith | Bae Abertawe | Aros am enwebiad |
| Prif Fferyllydd | Mrs Bethan Tranter | Felindre | Mrs Sophie Harding |
| Fferyllydd Diogelwch Meddyginiaethau | | | |
| | Dr Lynette James | Cymru Gyfan | |
| Aelod lleyg | | | |
| | Mr David Barnard | | Mr Alan Meudell |
| Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gymwys i bresgripsiynu | | | |
| | Mrs Amy Williams<br>Mr Robert Caine (i Ionawr 22) | | Aros am enwebiad |
| Nyrs | | | |
| | Mrs Sarah Davies | | Ms Sabrina Owen (i fis Mawrth 22) |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | | | |
| | Ms Rosemary Allgeier | | Mrs Sian Evans |
| Grŵp Diwydiant ABPI Cymru | | | |
| | Ms Sue Knights | | Ms Rachel Jenkins |
| Aelodau nad ydynt yn pleidleisio | | | |
| Cyfarwyddwr Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain Cymru | Dr Rick Greville | | |
| Cyfarwyddwr Cymdeithas Cynhyrchwyr Meddyginiaethau Generig Prydain | Mr Paul Fleming | | Ms Carol Blount |
| Llywodraeth Cymru | I'w hysbysu am gynrychiolaeth cyn pob cyfarfod | | |
| Aelod o Fwrdd AWTTC a Chynrychiolydd AWMSG | I'w hysbysu am gynrychiolaeth cyn pob cyfarfod | | |

## NMG

| Swydd | Aelod | Dirprwy |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dr James Coulson | |
| Is-gadeirydd | Dr Emma Mason | |
| Fferyllydd 1 | Mr Alan Clatworthy (o fis Mai 2022)<br><br>Ms Suzanne Davies (i fis Mawrth 2022) | Eleri Phillips |
| Fferyllydd 2 | Mrs Sue Beach | Derbyniwyd enwebiad |
| Fferyllydd 3 | Mrs Teena Grenier | Aros am enwebiad |
| Meddyg 1 - Ffarmacolegydd Clinigol | Dr Manjeet Singh | Aros am enwebiad |
| Meddyg 2 - Ymgynghorydd Allanol Ysbyty | Aros am enwebiad | Aros am enwebiad |
| Meddyg 3 - Meddyg Teulu | Dr Chalini Lankage (o Ebrill 2022) | Dr Avkash Das Jain |
| Proffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth neu sy'n gymwys i bresgripsiynu | Mr Karl Jackson<br><br>Ms Cathy Wynne (i Hydref 2021) | Aros am enwebiad |
| Iechyd y Cyhoedd/Epidemiolegydd | Aros am enwebiad | Aros am enwebiad |
| Economegydd Iechyd | Yr Athro Deborah Fitzsimmons | Dr Catrin Plumpton |
| Aelod ABPI | Mr Steven Lister<br>Mr Sandeep Kiri<br>Ms Holly Cranmer | Mae presenoldeb yn cael ei gylchdroi rhwng y tri unigolyn a enwir |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Dr Andrew Champion | Dr Sian Lewis |
| Aelod Lleyg | Mr William Anthony Esmond (o fis Mawrth 2022)<br><br>Mr Christopher Palmer (i fis Mawrth 2022)<br><br>Aros am enwebiad | Aros am enwebiad |
| Nyrsys | Mr Neil Thomas | Mr Andrew Davies (o Ebrill 2022)<br><br>Mrs Susan Newport<br><br>Dr Carolyn Middleton (hyd at fis Gorffennaf 2021) |

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Cyhoeddwyd gan:
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan
Canolfan Academaidd Routledge
Ysbyty Athrofaol Llandochau
Bro Morgannwg
CF64 2XX

Ar ran Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan

Dylid cyfeirio pob ymholiad at:
Mrs Ruth Lang
Uwch Reolwr Cyswllt
E-bost: awttc@wales.nhs.uk
Ffôn: 029 218 26900

Noder bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg argraffu, ond gallai newid. I gael y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i cttcg.gig.cymru (Cymraeg) a awttc.nhs.wales (Saesneg). Cyfrif Twitter Cymraeg @AWTTCcymraeg; cyfrif Twitter Saesneg @AWTTCcomms.